*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor (07385401954)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **Is-bwyllgor Y CABINET AR FATERION YR HINSAWDD** yn cael ei gynnal ar **Dydd MAWRTH, 6ED RHAGFYR, 2022** am **3.00 PM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Gwener, 2 Rhagfyr 2022 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

## AGENDA

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2022 yn rhai cywir.

**5 - 10**

**3.** **CYNLLUN HYDRO-ELECTRIG YNG NGHORED TREFFOREST**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith dichonoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â datblygu Cynllun hydro-electrig cwymp bychan yng Nghored Trefforest, Afon Taf, Trefforest, Pontypridd. Mae'r adroddiad yma'n seiliedig ar astudiaeth ddichonoldeb a luniwyd gan gwmni arbenigol sy'n adolygu'r cyfleoedd Ynni Dŵr sydd ar gael yng Nghored Trefforest.

**11 - 16**

**4.** **CYNLLUN HYDRO-ELECTRIG YM MHARC GWLEDIG CWM DÂR**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith dichonoldeb a gwblhawyd mewn perthynas â datblygu Cynllun hydro-electrig cwymp mawr ym Mharc Gwledig Cwm Dâr. Mae'r adroddiad yma'n seiliedig ar astudiaeth ddichonoldeb a luniwyd gan gwmni arbenigol a adolygodd hyfywedd cynllun a drafodwyd yn flaenorol.

**17 - 24**

**5.** **DIWEDDARIAD MEWN PERTHYNAS Â'R PROSIECT ÔL TROED CARBON AC ADRODDIAD CARBON SERO-NET SECTOR CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER 2021-2022**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ynghylch Cynllun Carbon Sero-Net Sector Cyhoeddus Cymru a'r adroddiad a gafodd ei gyflwyno gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yn rhan o'r cynllun hwnnw ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021/22.

**25 - 30**

**6.** **STRATEGAETH CYNGOR RHCT - COED, COETIROEDD A GWRYCHOEDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu sy'n rhoi cyfle i'r Is-bwyllgor drafod cynigion Plannu Coed ar gyfer RhCT.

**31 - 126**

**7.** **DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH A6 Y CYNGOR: ADRODDIAD TAIR BLYNEDD AR GYFER LLYWODRAETH CYMRU 2020-2022**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Is-bwyllgor am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth A.6 y Cyngor; a cheisio caniatâd i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**127 - 148**

**8.** **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**
**<u>Cylchreliad:-</u>**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd:**
(Y Cynghorydd C Leyshon ac Y Cynghorydd A Crimmings)

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**
Y Cynghorydd R Lewis, Y Cynghorydd  M Norris ac Y Cynghorydd J Barton